Hawdd ei Ddeall

# Rydyn ni i gyd yn perthyn

## Ein Cynllun ar gyfer gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg

## 2025 i 2028



**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl**

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**.

Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Rydym i gyd yn Perthyn. Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 – 2028 Drafft ar gyfer Ymgysylltu.'**

**Ebrill 2025**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

Un Bae Ar y Cyd
One Bay Way

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau glas yn feddwl ar **dudalen 27**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.bipba.gig.cymru

**E-bost:** SBU.engagement@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 01639 683 355

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys

**Am y cynllun yma ..... 4**

**Am y bobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ..... 8**

**Y Cynllun ..... 10**

1. Nodau i'r sefydliad - Gwneud cydraddoldeb yn rhan o bopeth a wnawn ..... 11

2. Nodau cyffredinol ..... 14

3. Nodweddion gwarchodedig - Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol ..... 17

4. Nodweddion gwarchodedig – Safonau Hygyrchedd ..... 19

5. Nodweddion gwarchodedig – Cynllun Gweithredu LHDTQ+ ..... 22

6. Cynllun iechyd menywod ..... 25

7. Cynllun Gweithredu Anabledd ..... 26

**Geiriau anodd ..... 27**


# Am y cynllun yma




Enw'r cynllun yma ydy **Rydyn ni i gyd yn Perthyn**.



Mae'n meddwl y pethau fyddwn ni'n eu gwneud i helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.




Mae'r cynllun yn rhedeg rhwng **2025 a 2028**.



Rydyn ni eisiau i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau deimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu cynnwys.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd y syniadau yma yn gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl.



**Rydyn ni eisiau gwybod beth mae pobl yn ei feddwl am y syniadau yma.**




Darllenwch y cynllun yma ac atebwch y cwestiynau trwy glicio ar y ddolen yma: Ffurflen ymateb



Neu anfonwch e-bost I ni igael copi o'r holiadur yma: SBU.engagement@wales.nhs.uk




Atebwch y cwestiynau erbyn **25 Ebrill.**



**Fe fyddwn ni'n gwrando ar beth mae pobl yn feddwl ac yna'n gwneud fersiwn derfynol o'r cynllun.**



Rydyn ni eisiau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod yn **sefydliad o ansawdd uchel**.




Mae hyn yn meddwl rhoi cleifion a staff yn gyntaf.



Rydyn ni eisiau cefnogi pobl i fod yn iach ac aros yn iach. Ac i ddarparu’r gofal iechyd gorau pan fydd ei angen ar bobl.



Rydyn ni’n credu bod angen i ni ofalu am ein gilydd, gweithio gyda’n gilydd a pharhau i wella.




Nod mawr i ni ydy **tegwch**.



Mae **tegwch** yn mynd y tu hwnt i gydraddoldeb. Mae hefyd yn meddwl bod yn deg. Mae'n meddwl cefnogi pobl **yn seiliedig ar eu hanghenion**. Mae angen gwahanol lefelau a mathau o gymorth a gofal ar bobl. Dydy pawb ddim angen yr un pethau.



I wneud y cynllun yma rydyn ni wedi siarad â llawer o bobl a sefydliadau. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi helpu i wneud y cynllun yma.

# Am y bobl sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



Mae'r bwrdd iechyd yn cefnogi ychydig o dan 400 mil o bobl.



Rydyn ni'n cyflogi 13,500 o staff.



Mae tua 1.5 biliwn o bunnoedd yn cael ei roi i redeg ein gwasanaethau.



Mae Abertawe yn cael ei dosbarthu fel **ardal ddifreintiedig**.

Mae **ardal ddifreintiedig** yn meddwl bod yna lawer o bobl nad oes ganddyn nhw ddigon o arian i fyw arno.



Mae hyn yn gallu cael effaith ar iechyd a hyd yn oed pa mor hir mae disgwyl i berson fyw.



Mae llawer o bethau yn gallu effeithio ar ein iechyd. Fel lle rydyn ni'n gweithio, os oes gennym ni anabledd, lle rydyn ni'n tyfu i fyny a phethau eraill.




Mae'r rhain yn cael eu galw yn a**nghydraddoldebau iechyd**. Mae'n meddwl nad ydy pobl yn profi **tegwch** iechyd oherwydd eu sefyllfa bywyd.



Yn ardal Bae Abertawe mae gan bron i 1 o bob 4 o bobl anabledd.

# Y Cynllun




Mae gennym ni lawer o nodau a chamau gweithredu fyddwn ni'n eu dilyn i'w cyflawni.



Rydyn ni wedi rhestru ein holl nodau isod a rhai o'r camau gweithredu.



# 1. Nodau i'r sefydliad - Gwneud cydraddoldeb yn rhan o bopeth a wnawn



**Gwneud yn siŵr bod penderfyniadau rydyn ni'n eu cymryd wedi eu seilio ar gydraddoldeb a hawliau dynol.**

Fe fyddwn ni yn:



- Gofyn i rai staff edrych ar ein gwaith am gydraddoldeb.
- Gwneud yn siŵr bod ein Bwrdd yn deall materion cydraddoldeb.




- Gwneud yn siŵr bod deddfau cydraddoldeb yn cael eu dilyn.
- Defnyddio offer i helpu i edrych ar pa mor effeithiol ydy ein gwaith cydraddoldeb.



**Gwneud offeryn sy'n edrych ar ein penderfyniadau am hawliau dynol a grwpiau nodweddion gwarchodedig.**



Mae **nodweddion gwarchodedig** yn meddwl grwpiau o bobl sydd wedi eu rhestru o dan gyfraith o'r enw Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ôl y gyfraith yma, mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn llai teg. Oherwydd pethau fel oedran, hil, anabledd, dewisiadau rhywiol a phethau eraill.



Fe fyddwn ni yn:

- Datblygu offer gwirio.
- Adolygu'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.
- Gwneud yn siŵr bod pobl yn arwain ar y gwaith yma.




**Sefydlu ffordd i gasglu syniadau yn rheolaidd a sylwi ar faterion cydraddoldeb yn ystod cynllunio.**



Fe fyddwn ni yn:

- Sefydlu grŵp fydd yn monitro'r holl waith cydraddoldeb.



**Adolygu ein nodau cydraddoldeb bob blwyddyn.**



Fe fyddwn ni yn:

- Cynnal gweithdy bob blwyddyn i weld sut mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.



**Peidio â goddef camdriniaeth.**




Fe fyddwn ni yn:

- Edrych ar y mater yma gyda gweithgor.
- Rhedeg ymgyrch am gamdriniaeth.




**Cyfathrebu â chleifion mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n iawn i'w hanghenion.**

Fe fyddwn ni yn:




- Adolygu a chyhoeddi canllawiau am **wybodaeth hygyrch**.

> Mae **gwybodaeth hygyrch** yn meddwl gwybodaeth mae rhywun yn gallu ei defnyddio'n hawdd. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.




- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth yn cael ei rhoi mewn gwahanol fformatau.

- Rhoi diweddariadau i gleifion ar restrau aros hirach a diweddariadau apwyntiadau.



**Gwneud yn siŵr bod pobl yn derbyn gwasanaethau dehongli iaith pan fo angen.**




Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud yn siŵr bod hawliau pobl yn hysbys.
- Gwneud yn siŵr ei bod yn glir sut i gael mynediad at wasanaethau dehongli. Mae dehongli yn meddwl helpu pobl i ddeall ei gilydd pan fyddan nhw yn siarad gwahanol ieithoedd.



- Gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau yn cael eu rhedeg yn dda.




**Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael i helpu i wneud gwasanaethau iechyd yn haws dod o hyd iddyn nhw, i symud o gwmpas a'u defnyddio. Mae hyn yn meddwl gwella mapiau fel bod pobl yn gallu dod o hyd i'w ffordd o gwmpas ysbytai.**



**Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau Caplaniaeth yn ateb anghenion cleifion a staff.**



Mae **gwasanaethau caplaniaeth** yn meddwl gwasanaethau lles a chymorth crefyddol mewn gwasanaethau iechyd.




**Gwella ein proses gwyno.**



Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud yn siŵr bod cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn.
- Gwneud yn siŵr bod cleifion yn gwybod eu hawliau.
- Gwneud yn siŵr bod y wybodaeth am gwynion yn hygyrch. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.

# 3. Nodweddion gwarchodedig - Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol



**Casglu gwybodaeth am grwpiau o bobl i helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg. Er enghraifft, gwybodaeth am hil.**




**Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael mynediad teg at wasanaethau iechyd.**



Fe fyddwn ni yn:

- Gwella profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau beichiogrwydd a mamolaeth.



**Gwneud yn siŵr bod pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gwybod bod newidiadau yn cael eu gwneud i wella cydraddoldeb.**

Fe fyddwn ni yn:



- Gweithio gyda grwpiau i helpu i wneud gwelliannau.
- Edrych ar sut rydyn ni'n ymateb i faterion hiliol.

# 4. Nodweddion gwarchodedig – Safonau Hygyrchedd




**Fe fydd y safonau wedi'u diweddaru yn cynnwys y 'Safonau Gwybodaeth Hygyrch'. Mae'r rhain yn rheolau i wneud yn siŵr bod gwybodaeth yn hygyrch.**



Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud yn siŵr bod cleifion yn gwybod eu bod nhw'n gallu gofyn am wybodaeth mewn fformat o'u dewis.



**Gwneud rhywun sy'n gyfrifol am ddilyn y rheolau yma.**



**Fe fydd pobl yn gallu dewis y gwasanaeth cyfieithu neu ddehongli cywir yn seiliedig ar eu hanghenion.**



Fe fyddwn ni yn:

- Datblygu'r gwaith yma trwy weithio gyda gwahanol sefydliadau.




**Fe fydd sefydliadau'r GIG yn edrych i weld ydy eu gwasanaethau cyfieithu a dehongli yn ateb anghenion cleifion.**



**Fe fydd apwyntiadau meddygon teulu ar yr un diwrnod ar gael i bobl sydd ddim yn gallu defnyddio'r ffôn.**



**Fe fydd cleifion heb fynediad digidol yn rheoli eu hapwyntiadau yn haws. A heb angen help gan eraill.**



Fe fyddwn ni yn:

- Edrych ar ffyrdd y mae cleifion yn gallu gwneud hyn.




**Fe fydd gwybodaeth apwyntiad yn cael ei roi mewn fformat sy'n iawn i'r person. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.**




**Fe fydd gwefannau GIG Cymru yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch.**

# 5. Nodweddion gwarchodedig – Cynllun Gweithredu LHDTQ+



Mae **LHDTQ +** yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer a grwpiau eraill.



**Delio â materion sy'n ymwneud â'r Llwybr Rhywedd. Mae'r rhain yn wasanaethau am newid rhyw o'r un y cafodd person ei eni gyda hi.**



**Gwneud yn siŵr bod pobl LHDTQ yn cael eu cynnwys yn y sefydliad.**




Fe fyddwn ni yn:

- Cefnogi digwyddiadau Pride.
- Gwneud toiledau mwy niwtral o ran rhywedd. Mae'r rhain yn doiledau sydd yn gallu cael eu defnyddio gan unrhyw ryw.



**Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth a chyngor hygyrch i bobl LGBTQ+.**




**Cynlluniau rheoli.**





Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud yn siŵr bod rheolau ar waith am ddiweddaru rhywedd ar gofnodion meddygol.



**Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal gyda thriniaethau ffrwythlondeb a mamolaeth. Mae'r rhain yn wasanaethau am gael babi.**



**Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd rhywiol yn fwy croesawgar ac yn hawdd eu defnyddio i gymunedau LHDTQ+.**



**Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd meddwl yn ateb anghenion cymunedau LHDTQ+.**

# 6. Cynllun iechyd menywod



**Gweithio gyda menywod i ddarganfod beth sydd bwysicaf iddyn nhw, a gweithio ar y pethau hynny.**



# 7. Cynllun Gweithredu Anabledd



**Gweithio gyda phobl anabl i ddarganfod beth sydd bwysicaf iddyn nhw, a gweithio ar y pethau hynny.**



# Geiriau anodd

### Difreintiedig

Mae hyn yn meddwl bod yna lawer o bobl heb ddigon o arian i fyw arno

### Gwybodaeth hygyrch

Mae hyn yn meddwl gwybodaeth mae rhywun yn gallu ei defnyddio'n hawdd. Er enghraifft, yn Hawdd ei Ddeall.

### Gwasanaethau Caplaniaeth

Mae gwasanaethau caplaniaeth yn meddwl gwasanaethau lles a chymorth crefyddol mewn gwasanaethau iechyd.

### LHDTQ+

Mae hyn yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer a grwpiau eraill.

### Nodweddion gwarchodedig

Mae hyn yn meddwl grwpiau o bobl sydd wedi'u rhestru o dan gyfraith o'r enw Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ôl y gyfraith yma, mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn llai teg. Oherwydd pethau fel oedran, hil, anabledd, dewisiadau rhywiol a phethau eraill.

### Tegwch

Mae hyn yn mynd y tu hwnt i gydraddoldeb. Mae hefyd yn meddwl bod yn deg. Mae'n meddwl cefnogi pobl yn seiliedig ar eu hanghenion. Mae angen gwahanol lefelau a mathau o gymorth a gofal ar bobl. Dydy pawb ddim angen yr un pethau.